sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Rheoleiddio hysbysebu bwyd a diod llai iach

## Gweithredu cyfyngiadau statudol newydd

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

### Diben y ddogfen hon - yn gryno

Rhwng 21 Chwefror a 21 Ebrill 2023, ymgynghorodd Ofcom ar gynigion ar gyfer gweithredu cyfyngiadau statudol newydd ar hysbysebu a nawdd ar gyfer cynhyrchion bwyd a diod llai iach. Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn nodi casgliadau Ofcom.

**Y cyfyngiadau**

Diwygiodd Deddf Iechyd a Gofal 2022 Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i gyflwyno cyfyngiadau newydd ar hysbysebu a noddi cynhyrchion bwyd a diod sy'n llai iach, h.y. cynhyrchion bwyd a diod penodol sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr ("HFSS”). Mae'r cyfyngiadau newydd hyn yn berthnasol i hysbysebu ar wasanaethau rhaglenni teledu ac ar-alw ("ODPS") a reoleiddir gan Ofcom a hefyd ar-lein.

Yn gryno, **mae gwasanaethau teledu ac ODPS wedi'u gwahardd rhag cynnwys hysbysebu a nawdd mewn perthynas â chynhyrchion bwyd a diod llai iach rhwng 5.30am a 9.00pm;** a **gwaherddir hysbysebion y telir amdanynt am y cynhyrchion hyn, pan gânt eu hanelu at ddefnyddwyr y DU, rhag cael eu rhoi ar-lein ar unrhyw amser.** Daw'r cyfyngiadau i rym o 1 Hydref 2025.

Ofcom yw'r rheoleiddiwr statudol gyda chyfrifoldeb dros hysbysebu ar y teledu ac ODPS, yr ydym wedi sefydlu cydberthnasoedd rheoleiddio ar ei gyfer gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ("ASA"), y Pwyllgor Darlledu Arfer Hysbysebu ("BCAP") a'r Bwrdd Cyllid Safonau Darlledu ("BASBOF”). Gan ddilyn diwygiadau sy'n deillio o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, mae Deddf 2003 hefyd yn rhoi cyfrifoldeb i Ofcom dros reoleiddio hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar-lein, gyda'r pŵer i ddynodi cyd-reoleiddiwr.

**Yr ymgynghoriad**

Nododd yr ymgynghoriad ymagwedd Ofcom at weithredu'r cyfyngiadau newydd ar hysbysebu a noddi cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar y teledu, ODPS ac ar-lein. Fe gadarnhaodd fod y cyfyngiadau newydd ar deledu ac ODPS yn dod o dan y trefniadau cyd-reoleiddio presennol sy'n berthnasol i hysbysebu ar y cyfryngau hyn.

Bu i ni ymgynghori ar: **gynnig i ddynodi'r ASA yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer y gwaharddiad newydd ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach mewn gofodau ar-lein y telir amdanynt;** a **diwygiadau i'r Cod BCAP a'r Cod Darlledu i adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd sy'n berthnasol i hysbysebu a noddi ar y teledu.**

**Casgliadau Ofcom**

Yn gryno, mae Ofcom wedi penderfynu: **ddynodi'r ASA fel cyd-reoleiddiwr** ar gyfer y gwaharddiad hysbysebu ar-lein; a **bwrw ymlaen â'r diwygiadau i'r Cod BCAP a'r Cod Darlledu**, yn amodol ar fân newidiadau. Mae'r sail resymegol dros y penderfyniadau hyn wedi'i nodi yng ngweddill y ddogfen hon.

Bydd dynodiad yr ASA yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r fersiynau terfynol o'r rheolau sydd i'w mewnosod yn y codau perthnasol wedi'u nodi yn yr Atodiadau.